Cefndir

Ym mis Hydref 2024, gofynnwyd i'r Hybarch Mike Komor a'r Tra Barchedig Chris Potter, drwy Gaplan yr Archesgob, a fyddem yn fodlon bod yn Gomisariaid i'r Esgob fel rhan o dîm yr Ymweliad yng Nghadeirlan Bangor. Yna, cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol drwy Teams â'r Archesgob a chynrychiolwyr Thirtyone:eight, a hefyd â'r Archesgob ar ei ben ei hun neu gyda'i Gaplan.

Unwaith y cytunwyd ar ddyddiad ar gyfer yr Ymweliad, hysbyswyd y Cabidwl[1], lluniwyd Cylch Gorchwyl, a rhoddwyd gwybod i gymuned y Gadeirlan.

Roedd y derminoleg a ddefnyddiwyd yn y Cylch Gorchwyl ychydig yn wahanol i'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn y llythyr i'r Cabidwl, a disgrifiwyd y rhan honno o'r Ymweliad yr oeddem yn gyfrifol amdani fel a ganlyn:

> *"Bydd yr ymweliad yn canolbwyntio ar feysydd penodol sy'n peri pryder:*
> *Diwylliant, iaith ac ymddygiad clerigwyr, cyflogeion, swyddogion a gwirfoddolwyr.*
> *Ansawdd y ffydd a'r sancteiddrwydd Cristnogol yn y Gadeirlan.*
> *Uniondeb ffiniau proffesiynol a phersonol rhwng cydweithwyr.*
> *Cadernid trefniadau goruchwylio ac eglurder yr awdurdod a ddirprwyir o'r Cabidwl i'r uwch dîm arwain."*

- *Diwylliant, iaith ac ymddygiad clerigwyr, cyflogeion, swyddogion a gwirfoddolwyr.*
- *Ansawdd y ffydd a'r sancteiddrwydd Cristnogol yn y Gadeirlan.*
- *Uniondeb ffiniau proffesiynol a phersonol rhwng cydweithwyr.*
- *Cadernid trefniadau goruchwylio ac eglurder yr awdurdod a ddirprwyir o'r Cabidwl i'r uwch dîm arwain."*

Gofynnir i ni ganolbwyntio ar y cyfnod 2022-2024 yn benodol.

Rhoddwyd rhestr o enwau a chyfeiriadau e-bost aelodau o staff y Gadeirlan (staff cyflogedig a gwirfoddol), y Cabidwl, yr oedolion sy'n aelodau o'r côr a rhieni'r plant sy'n aelodau o'r côr. Cytunodd CP a MK i rannu'r rhestr yn gyfartal a threfnu ein cyfweliadau ein hunain ar gyfer yr wythnos yn dechrau 11 Tachwedd.

Roeddem yn glir o'r cychwyn cyntaf nad ymchwiliad roeddem yn ei gynnal. Yn hytrach, byddem yn gwrando ar rai o'r bobl a oedd â chysylltiad agos â Deiniol Sant. Ni fyddem yn ceisio dilysu datganiadau a wnaed i ni, ac ni wnaethom ofyn am gael gweld unrhyw ddogfennaeth neu unrhyw fathau eraill o dystiolaeth (er i rywfaint gael ei ddangos i ni).

[1] O lythyr yr Archesgob i'r Cabidwl:
"… Rwy'n bwriadu gwahodd rhai ffigyrau uwch, o'r tu mewn i'r dalaith a'r tu allan iddi, i gynnal ymweliad ar fy rhan. Bydd yr ymweliad yn canolbwyntio ar **ansawdd bywyd, ffydd, disgyblaeth, ymddygiad a diwylliant y Gadeirlan**, gyda ffocws penodol ar y côr."

Rhagymadrodd

Llywiwyd y ffordd yr aethom ati i gyflawni'r dasg gan ein dealltwriaeth o natur a diben Cadeirlannau o fewn Anglicaniaeth, sydd ynddo'i hyn yn manteisio ar ein profiad personol o'r sefydliadau hynny.

Efallai y gellir ystyried bod yr hyn sy'n dilyn yn farn ddelfrydol o sut y dylai Cadeirlan edrych, ac rydym yn cydnabod ei fod yn annhebygol y byddai unrhyw sefydliad yn cyfateb â hynny'n gyson. Serch hynny, mae gosod y bar yn uchel yn annog rhagoriaeth, lle mae cymorth ac adnoddau yn caniatáu.

Rydym yn ystyried y dylai Cadeirlan fod yn fynegiant byw o'r ethos a'r diwylliant Cristnogol sydd wedi llywio ac sy'n parhau i lywio ein henwad. Dylai ei diwylliant fod wedi'i ymwreiddio'n ddwfn mewn egwyddorion Beiblaidd a dylai adlewyrchu'r gwerthoedd, y credoau a'r arferion sy'n ganolog i'r ffydd Gristnogol.

Dylai Cadeirlannau fod yn fannau lle gellir teimlo presenoldeb Duw mewn ffordd ddofn. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y bensaernïaeth, sy'n aml yn ceisio ennyn parch.

Ei phrif rôl yw cynnig addoli o ansawdd uchel, wedi'i fwynhau'n aml gan gerddoriaeth o'r ansawdd gorau (cf Salmau 100.2). Mae'r gwasanaethau dyddiol a dathlu'r Cymun Bendigaid yn weithgareddau canolog. Mae'r litwrgïau hyn yn weithredoedd o ffyddlondeb unigol ond maent hefyd yn weithgareddau cymunedol sy'n adlewyrchu rôl y Gadeirlan fel man ymgynnull ar gyfer y ffyddloniaid. Gellir ehangu ymhellach ar yr ymdeimlad o bresenoldeb dwyfol wrth addoli drwy ddefnyddio thuserau ac elfennau synhwyraidd eraill sy'n dyrchafu'r profiad.

Y tu hwnt i'r cynnig addoli, mae Cadeirlannau, ar eu gorau, hefyd yn chwarae rôl wrth addysgu ac o ran cenhadaeth. Mae hyn yn cynnwys holwyddoreg ac efengyliaeth.

Mae presenoldeb cadair yr Esgob yn y Gadeirlan yn dynodi undod yr esgobaeth a pharhad traddodiad apostolaidd yr Eglwys. Yn aml, mae Cadeirlannau yn gwasanaethu fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau esgobaethol, fel ordeiniadau a synodau, gan atgyfnerthu rôl fugeiliol a gweinyddol yr Esgob.

Yn hanesyddol, mae Cadeirlannau wedi bod yn fannau o loches. Mae'r egwyddor hon wedi'i hymwreiddio'n ddwfn yn nealltwriaeth Anglicanaidd o letygarwch a chyfiawnder. Mae'r Gadeirlan yn fan lle dylai pob person, ni waeth beth fo'i gefndir, allu canfod cysur, derbyniad, croeso, cefnogaeth, ac ymdeimlad o berthyn. Mae'r egwyddor hon yn ymestyn i fentrau cyfiawnder cymdeithasol, lle mae Cadeirlannau yn aml yn arwain wrth fynd i'r afael â materion fel digartrefedd, tlodi ac anghydraddoldeb (cf Mathew 25.35) a hyrwyddo cynhwysiant (cf Galatiaid 3.28).

Mae llawer o Gadeirlannau hefyd yn drysorfeydd o dreftadaeth ddiwylliannol ac yn ganolfannau o ragoriaeth artistig. Mae egwyddorion diwinyddol harddwch a chreadigrwydd yn amlwg yng nghelf, cerddoriaeth a phensaernïaeth y mannau cysegredig hyn. Gellir gweld y rhain fel mynegiannau o greadigrwydd dwyfol ac maent yn rhan annatod o genhadaeth y Gadeirlan i ysbrydoli a chodi'r ysbryd dynol.

Yn dibynnu ar eu lleoliad a'u hanes, gall Cadeirlannau wasanaethu fel cyrchfannau ar gyfer pererinion sy'n chwilio am adnewyddu ysbrydol, gan ddarparu man lle gall pobl gysylltu â'r dwyfol, myfyrio ar eu taith ysbrydol a dod o hyd i adnewyddiad ac ysbrydoliaeth. (Salmau 84.5).

Ar eu gorau, mae Cadeirlannau yn fwy nag adeiladau, maent yn gymuned fyw o ran ffydd. Caiff yr egwyddor hon ei hadlewyrchu yn yr amryw weithgareddau a digwyddiadau sy'n dod â phobl ynghyd, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a chefnogaeth. P'un ai drwy addoli, digwyddiadau cymdeithasol neu wasanaethau cymunedol, mae Cadeirlannau yn meithrin cydberthnasau ac yn adeiladu cymuned gref, gefnogol (cf Actau 2:42).

Yr Ymweliad

Dros gyfnod o 14 diwrnod, ond yn ystod wythnos 11-15 Tachwedd yn bennaf, gwnaethom gynnal bron i 40 o gyfarfodydd unigol ar wahân, a dau gyfarfod ar y cyd. Roedd yr Archesgob yn un o'r bobl y gwnaethom gyfarfod â nhw fel rhan o'r Ymweliad.

Ni wnaethpwyd unrhyw ymgais i gyfarfod ag aelodau o gymuned y Gadeirlan nad oedd ganddynt rôl ddynodedig yn ei gweinidogaeth, er bod gan rai o'r rheini y gwnaethom siarad â nhw fewnwelediadau uniongyrchol neu ail-law i'w cynnig o ran persbectif y gynulleidfa.

Hoffem gofnodi'r ffaith bod rhai o'r bobl y gwnaethom gyfarfod â nhw wedi mynegi siom fawr nad oedd unrhyw aelodau o dîm yr Ymweliad yn gallu cynnal unrhyw rai o'r cyfarfodydd hyn yn Gymraeg. Mae hwn yn bryder yr ydym yn cydymdeimlo ag ef.

Hoffem hefyd ddiolch i bawb a gytunodd i gyfarfod â ni, ac a rannodd eu barn a'u profiadau. Hoffem ddiolch yn benodol i'r bobl y mae eu doethineb a'u mewnwelediadau wedi cael effaith uniongyrchol ar ein hargymhellion.

Chris Potter a Mike Komor

Rhagfyr 2024

Argymhellion

Gan fyfyrio ar yr hyn y gwnaethom ei glywed, credwn fod gan bawb sy'n gysylltiedig â'r Gadeirlan awydd gwirioneddol i'w gweld yn ffynnu ac yn llwyddo.

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol yn yr un ysbryd.

1. Ni ddylai unrhyw benodiad i rôl Deon neu Is-ddeon yn y dyfodol gynnwys cyfrifoldebau eraill. Efallai nad yw Cadeirlan Bangor mor fawr ac mor gymhleth â rhai eraill, ond mae arwain y Gadeirlan yn dasg llawn amser o hyd.

2. Penodi arweinwyr cryf (dros dro os bydd angen)
   Dylid rhoi ystyriaeth ar frys i benodi 'Is-ddeon Dros Dro' (neu ba deitl bynnag y gall fod ei angen), sef clerigwr uwch a allai gael ei leoli yn y Gadeirlan i sicrhau sefydlogrwydd nes y bydd yr Is-ddeon yn dychwelyd neu y bydd olynydd yn cyrraedd. Mae angen sicrhau bod llinellau rheoli clir ar waith a'u bod yn cael eu cyfathrebu, a byddai staff y Gadeirlan yn cael budd o gymorth a goruchwyliaeth briodol.

3. Cabidwl i ethol Cadeirydd Lleyg
   Er bod traddodiad diymwad yn yr eglwys lle mai'r prif swyddog sy'n ymgymryd â rôl Cadeirydd mewn PCCs/MACs/Cabidylau, mae'n werth ystyried a ellir sicrhau mwy o atebolrwydd os yw person gwahanol yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd. Gallai hyn gyfateb i rolau Cadeirydd Llywodraethwyr/Pennaeth ym myd addysg.

4. Parhau i atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar faterion llywodraethiant a chyllid gan Gabidwl, a threfnu hyfforddiant priodol i ymddiriedolwyr ar gyfer Cabidwl (gellir gwneud hyn ar lefel daleithiol).

5. Penodi Caplan i'r Côr
   Mae'r côr yn cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd ffydd, a phobl heb ffydd. Dylid ystyried darparu person enwebedig a allai fod yn gyfrifol am roi cyflwyniad/sesiwn gynefino ar addoli Cristnogol, gan gynnwys y diwylliant a'r ymddygiad a ddisgwylir mewn Cadeirlan.
   Byddai'r cyfryw berson yn unigolyn y gallai aelodau o'r côr fynd ato hefyd os ydynt yn ei chael hi'n anodd rhannu awgrymiadau neu bryderon â staff y Gadeirlan.
   Efallai y gellir ystyried person gwahanol ar gyfer rôl Caplan i aelodau iau'r côr.

6. Creu diwylliant o gyfathrebu parchus
   Gallai fod yn amhosibl gwaredu cyfathrebu preifat angharedig ac amhriodol neu gymryd camau gorfodi mewn perthynas ag ef, ond gallai'r tîm o glerigwyr a chyflogeion y Gadeirlan gael eu hannog fel rhan o'u trwyddedau neu gytundebau i ymrwymo i ddefnyddio cyfathrebu sy'n corffori egwyddorion cyd-barch yn unig.
   Gellid gofyn i ddeiliaid swyddi, cyflogeion ac unigolion eraill sydd â rolau awdurdodedig yn y Gadeirlan lofnodi *Siarter Urddas* yr Eglwys yng Nghymru fel rhan o'u comisiynu.

7. Darparu cymorth i'r tîm o glerigwyr
   Mae'n hanfodol, yn ein barn ni, bod adnoddau ychwanegol ar gael i glerigwyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl yn Neiniol Sant.

8. Archwilio ffyrdd o fanteisio'n effeithiol ar ddoethineb a phrofiad Coleg yr Offeiriaid.
9. Ymgorffori'r strategaeth y cytunwyd arni dros gyfnod estynedig ac osgoi newidiadau sylweddol a sydyn a allai ddigwydd pan fydd pobl newydd yn ymuno â'r tîm arwain.
10. Egluro rôl Deon a Chabidwl mewn perthynas â Bro Deiniol a'r eglwysi dibynnol a safle'r Gadeirlan fel Eglwys Blwyf Dinas Bangor.